**Cofnodion Pwyllgor Brys Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd nos Lun, 28ain Hydref, 2024 drwy gyfrwng Zoom**

**Presennol**: Steve (SW),**(Cadeirydd)** Iolo Roberts (IPR),Dilys (DAP),Richard (RR), Keith (KR), Elen (EH), Dwynwen (DP), Iolo ap Gwynn (IAG),Sioned (SLJ), Eurig (EJ).

Ymddiheuriadau: Raymond, Dewi, Gethin,

**1. TALIADAU I GYNGOR MYNYDDA PRYDEINIG (CMP)**

Adroddwyd

- bod y CMP, yn sgil eu problemau ariannol dyrys a chostau yswiriant wedi cynyddu yn sylweddol, wedi penderfynu codi eu tanysgrifiadau i aelodau clybiau yn 2025 o £23.90 i £29.33.
- gan mai £25 yw tâl aelodaeth presennol y Clwb, ni fyddai'n ddigonol ar gyfer y taliad a wneir i'r CMP. Adroddodd y Trysorydd fod gan y Clwb ddigon o arian wrth gefn i ysgwyddo'r cynnydd yma ar gyfer 2025 ond yn y tymor hir byddai'n rhaid i'r Clwb edrych ar y tâl aelodaeth i sicrhau y gellid talu'r tanysgrifiadau
- mai un o brif fanteision ymaelodi â'r CMP yw bod y Clwb, arweinyddion teithiau ac aelodau, yn cael mantais o bolisi yswiriant y CMP a fyddai'n eu diogelu rhag hawliadau 3ydd parti am anaf, colled ariannol neu ddifrod i eiddo
- bod y Pwyllgor eisoes wedi ystyried hyn a darganfod nad oes modd sicrhau y math hwn o yswiriant o ffynhonnell arall a'i bod yn holl bwysig bod gan y Clwb y math yma o warchodaeth
- y galwyd y cyfarfod hwn i roi cyfle i'r Pwyllgor ystyried gwneud argymhelliad i'r Cyfarfod Blynyddol ar 16eg Tachwedd, 2024, ar y mater.

Cytunwyd argymell i'r Cyfarfod Blynyddol bod y Pwyllgor

i. yn gytun ei bod yn holl bwysig bod y Clwb yn ymaelodi â'r CMP er mwyn sicrhau'r yswiriant
ii. yn argymell defnyddio arian sydd yng nghoffrau'r Clwb i gwrdd â'r cynnydd yn y tanysgrifiadau a delir i'r CMP ar gyfer 2025
iii. yn cael awdurdod i edrych ar dâl aelodaeth y Clwb o 2026 ymlaen gyda'r bwriad o sicrhau y bydd yn ddigonol ar gyfer y tanysgrifiadau a delir i'r CMP
iv. nodi y bydd y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Ionawr yn edrych ar eiriad y wybodaeth am y gweithgareddau a nodir ar wefan y Clwb.